

Papur Tystiolaeth cyn Sesiwn Graffu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – 05.11.2018

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Stiwdios Pinewood

Diben y papur hwn yw darparu Tystiolaeth Ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Stiwdios Pinewood. Mae llinell amser ynghlwm yn Atodiad 1.

Cychwyn y Prosiect

Cysylltodd swyddogion â chyn Brif Swyddog Gweithredol Pinewood Shepperton plc yn ystod haf 2013 yn y lle cyntaf ynghylch y posibilrwydd o fuddsoddi mewn stiwdio ffilm a theledu newydd yng Nghymru. Roedd hyn mewn ymateb i alw cynyddol am ofod stiwdio yn y DU oherwydd y lefel uchel o ffilmiau nodwedd â mewnfuddsoddiad mawr a dramâu teledu o safon uchel sy'n dod i'r DU yn sgil cymhellion treth y DU. Cefnogwyd hyn gan alwad Comisiwn Sgrîn Prydain am fwy o ofod stiwdio yn y rhanbarthau i ymdopi â'r galw gan fod Llundain yn prysur lenwi. Yn ystod y trafodaethau, cynigiodd Pinewood greu cronfa ffilm a theledu gwerth £30 miliwn ar gyfer Cymru. Byddai Llywodraeth Cymru yn cadw'r arian a byddai Pinewood yn gweithio gyda chwmnïau cynhyrchu i strwythuro cytundebau masnachol a fyddai'n cael eu hystyried yn addas i fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru. Yna, byddai'r cytundeabu hyn yn cael eu cyflwyno i banel annibynnol o arbenigwyr, a fyddai'n gyfrifol am roi cyngor i Lywodraeth Cymru ynghylch a ddylid buddsoddi yn y cynhyrchiad. Roedd yn gyfle i Gymru sefydlu cronfa fasnachol gynaliadwy i ail-fuddsoddi mewn cynyrchiadau er mwyn sicrhau dyfodol tymor hir i'r diwydiant yng Nghymru, gan rannu yn llwyddiant masnachol cynyrchiadau ar yr un pryd â sicrhau manteision economaidd gwariant ar draws cadwyn gyflenwi Ffilm a Theledu yng Nghymru. Roedd yn gyfle unigryw i Lywodraeth Cymru gydweithio ag un o brif ddarparwyr gwasanaethau stiwdio a gwasanaethau cysylltiedig i'r diwydiannau ffilm a theledu ledled y byd. Gwelodd swyddogion y cyfle i farchnata diwydiant Ffilm a Theledu Cymru ar gefn brand a gydnabyddir yn fyd-eang trwy gytundeb nawdd.

Cytundeb Cydweithio Pinewood

Arweiniodd y trafodaethau at ddatblygu'r Cytundeb Cydweithio a oedd yn gontract rhwymol rhwng Llywodraeth Cymru a Pinewood. Dechreuodd y Cytundeb Cydweithio ar 1 Mawrth 2014 roedd gan dair prif elfen:

- 1. Cyfleuster stiwdio ffilm a theledu*
- 2. Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau £30 miliwn, i ddarparu cymysgedd o gyllid ffilm a theledu hyblyg*
- 3. Cytundeb nawdd*

Stiwdio

Yn dilyn proses chwilio helaeth am safleoedd addas ar gyfer y stiwdio, mynegodd Pinewood Shepperton plc mai ardal Gwynllŵg oedd y safle yr oeddent yn ei ffafrio ar gyfer y cyfleuster newydd. Ystyriwyd mai'r safle newydd oedd y dewis gorau oherwydd ei leoliad, ei faint a'i hygyrchedd. Ers agor yn 2015, mae'r stiwdio wedi bod yn gartref i nifer o gynyrchiadau drama a ffilm mawr hyd yma, gan gynnwys Journeys End, Sherlock Tymor 4, The Bastard Executioner, The State a Showdogs. Mae'r cyfleuster yn gartref i gwmnïau cadwyn gyflenwi ffilm a theledu allweddol hefyd megis Andy Dixon Facilities, Real SFX a Lubas Medical.

Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau

Ar gyfer cynyrchiadau a gefnogir trwy'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau (MIB), y meini prawf hyd yma oedd bod yn rhaid i brosiectau ymgymryd â 50% o'r prif waith ffotograffiaeth yng Nghymru a gwario o leiaf 35% o'u cyllideb ar wariant islaw'r llinell.¹ Fodd bynnag, cyfunir hyn â gofyniad i unrhyw gyllid masnachol gydymffurfio ag Egwyddor Gweithredwr Economi'r Farchnad (MEOP) a'i ad-dalu'n llawn, yn ogystal ag elw.

Rôl Pinewood oedd datblygu prosiectau masnachol fel y byddent yn cael eu hystyried yn barod i wneud cais i'r MIB. Mae hyfywedd masnachol y prosiectau sy'n gwneud cais am gyllid trwy'r llwybr hwn yn cael eu cadarnhau gan arbenigwyr cyfryngau allanol ac yna'n cael eu hystyried gan banel o arbenigwyr cyfryngau. Ni fyddai unrhyw brosiect nad ystyrir ei fod yn cydymffurfio â MEOP yn cael ei argymell ar gyfer cyllid.

Mae'r panel arbenigol yn asesu'r lefel a'r math o arian y gofynnir amdano ac yn ystyried pa mor debygol yw ei botensial i ddarparu enillion ar fuddsoddiadau, yn seiliedig ar amcanestyniadau gwerthu annibynnol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny, sut mae prosiectau eraill sy'n debyg o ran genre wedi llwyddo yn y farchnad a hanes llwyddiant y tîm cynhyrchu.

O dan y Cytundeb Cydweithio gwreiddiol, cyflwynodd Pinewood naw prosiect drwy'r MIB a gafodd eu ffilmio yng Nghymru.

Rydym wedi cael rhai llwyddiannau arbennig, er enghraifft 'Their Finest' sydd wedi gweld elw rhagorol o werthu tocynnau ac sydd wedi derbyn clod sylweddol gan y beirniaid. Mae Llywodraeth Cymru wedi adennill ei holl fuddsoddiad ar y ffilm hon. Yn ogystal, mae 'Journey's End', sy'n seiliedig ar y ddrama enwog gan R. C. Sherriff, a ryddhawyd mewn sinemâu yn y DU ym mis Mawrth 2018 wedi derbyn adolygiadau ffafriol iawn a chafwyd gwerthiant tocynnau da. Mae Llywodraeth Cymru wedi adennill dwy ran o dair o'i buddsoddiad yn y ffilm.

At ei gilydd, mae pob prosiect a gefnogwyd gan yr MIB wedi gwario cyfran sylweddol o'u cyllideb yn lleol hefyd; gan gyflogi criw hunangyflogedig a chwmnïau cyfleusterau yng Nghymru. Mae'r gwariant hwn yn fwy na £18 miliwn.

Nid wnaeth 'Take Down', y prosiect cyntaf a gefnogwyd drwy'r MIB, cystal. Hwn oedd y prosiect cyntaf un a gefnogwyd drwy'r gronfa, a dysgwyd gwersi pwysig gan Pinewood, swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau. Yn benodol, ystyriwyd y dylai fod gan brosiectau'r dyfodol fwy o gydbwysedd o fuddsoddiad preifat ac felly y byddai angen cyfraniad llai gan Lywodraeth Cymru, y dylent gynnig gwell gwerth am arian ac y dylid darparu mwy o fanylion er mwyn asesu'r posibilrwydd o adennill costau.

¹ Gellir diffinio gwariant islaw'r llinell fel yr holl gostau cynhyrchu ac eithrio'r doniau creadigol - fel Actorion, Cyfarwyddwr, Cynhyrchwyr ac Awduron o'r criw arall

Ceir manylion y prosiectau a gefnogwyd drwy'r MIB o dan y Cytundeb Cydweithio yn Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.

Nawdd

Roedd y nawdd er mwyn i Pinewood hyrwyddo Cymru fel canolfan ragoriaeth ar gyfer ffilm a dramâu teledu o safon uchel, fel rhan o'u cynnig rhyngwladol. Ni ellir ei gymharu ag unrhyw gytundeb nawdd arall y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddo hyd yn hyn.

Mae cael brand mor adnabyddus yng Nghymru wedi helpu i godi proffil Cymru fel lleoliad cynhyrchu blaenllaw ac wedi rhoi mantais fyd-eang i Gymru dros ranbarthau eraill.

Mae Pinewood wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddod â chynrychiadau eraill i Gymru.

Mae'n anodd mesur yr enillion ar fuddsoddiad yn sgil cael brand Pinewood yn gysylltiedig â Chymru a'r gwaith hyrwyddo mewn marchnadoedd byd-eang. Er na ellir priodoli llwyddiant y diwydiant teledu a ffilm yng Nghymru i Pinewood yn unig, does dim dwywaith bod eu hymdrechion gwerthu a'u brand wedi arwain at gynnydd mewn ymholiadau am ffilm a theledu yng Nghymru.

Mae swyddogion yn credu bod y gwariant cynhyrchu ar gyfer prosiectau sydd wedi dod i Gymru diolch i Pinewood trwy eu gweithgareddau nawdd yn fwy na £24 miliwn.

Problemau gyda'r Cytundeb Cydweithio

Tryloywder

Ysgrifennodd swyddogion at Pinewood ar 2 Tachwedd 2016 yn tynnu sylw at yr angen am dryloywder llawn yn y wybodaeth a ddarperir i Lywodraeth Cymru a'r Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau ynghylch hyd a lled cyfranogiad ehangach Grŵp Pinewood mewn cynrychiadau. Roedd hyn yn rhan o gytundeb rhwng y naill barti a'r llall i weithio gyda'i gilydd i ddatrys unrhyw broblemau heb eu datrys a pharhau i gyflwyno prosiectau gwych i Gymru. Gofynnodd swyddogion, mewn perthynas ag unrhyw brosiect, ein bod yn cael manylion llawn yr holl fanteision a fyddai'n dod i ran Pinewood o'r trefniant arfaethedig o fewn ac ar draws y Grŵp. Rhoddodd Pinewood y wybodaeth i Lywodraeth Cymru wedyn ynghylch unrhyw wasanaethau y byddent yn eu darparu a'r gost i'r cynhyrchiad ar gyfer pob prosiect a gyflwynwyd i'w hystyried ar gyfer MIB.

Gwrthdaro buddiannau tybiedig

Roedd y diffyg tryloywder y cyfeirir ato uchod yn peri pryder bod Pinewood yn cael mantais ganfyddedig dros gwmnïau eraill drwy ei fynediad arbennig i'r MIB. Roedd cwmnïau lleol wedi lleisio'r pryderon hyn, ar ôl bod yn aflwyddiannus wrth geisio sicrhau gwaith drwy gynrychiadau a ddaeth yma drwy'r llwybr hwn.

O ganlyniad, fe wnaethom gynnal trafodaethau pellach gyda Pinewood, a chafodd gweithdrefnau eu tynhau i roi sicrwydd ychwanegol. Bu'r Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau, a benodwyd yn annibynnol, yn ystyried gwrthdaro buddiannau posib mewn prosiectau a gyflwynwyd gan Pinewood Pictures, a cheisiodd sicrhau'r fargen orau bosib i Gymru wrth ddarparu cyngor i Weinidogion Cymru.

Yn ogystal â hyn, roedd cyfleuster Pinewood Studio a'r MIB yn gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd ac ni osodwyd unrhyw amodau i ddefnyddio Pinewood Stiwdio Cymru wrth gael mynediad i'r MIB.

Perfformiad y Contract

Cododd swyddogion bryderon gyda Pinewood ym mis Tachwedd 2016, am berfformiad y gronfa, gyda buddsoddiad ac enillion yn sylweddol is na'r cynllun busnes gwreiddiol.

Dywedodd Pinewood fod hyn oherwydd newidiadau yn y farchnad yn bennaf, ond cydnabuwyd bod angen gwneud newidiadau ac felly gofynnwyd am gynllun busnes newydd.

Cyflwynwyd cynllun busnes newydd, ond nid oedd yn bodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru a dechreuwyd trafodaethau pellach. Ym mis Hydref 2016, daeth Pinewood dan berchnogaeth newydd, ac yna penodwyd Cadeirydd newydd a Phrif Swyddog Gweithredol dros dro, ac yna gadawodd y Prif Weithredwr y cwmni ym mis Ebrill 2017. Yna ysgwyddodd y Cadeirydd newydd a'r Prif Swyddog Gweithredol dros dro'r cyfrifoldeb dros ail-drafod telerau'r Cytundeb Cydweithio gyda swyddogion. Yn ystod y cyfnod hwn y gwnaeth Pinewood y penderfyniad i dynnu'n ôl o reolaeth trydydd parti ar y gronfa.

Rhesymau dros symud i gytundeb newydd

Yn sgil penderfyniad Pinewood i dynnu'n ôl o reolaeth trydydd parti ar y gronfa drwyddi draw – nid yng Nghymru yn unig – cawfwyd cyfle i ni ail-drafod telerau'n cydweithrediad â Pinewood.

Er bod y telerau llawn ein cytundeb newydd yn gyfrinachol, ar gais Pinewood, mae hyn yn golygu eu bod yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i weithredu'r stiwdio yng Ngwynllŵg, ac yn parhau i hyrwyddo Cymru'n rhyngwladol fel cyrchfan ar gyfer cynrychiadau ffilm a theledu o safon uchel.

Ni ellir priodoli llwyddiant y diwydiant teledu a ffilm yng Nghymru i Pinewood yn unig, fodd bynnag, does dim dwywaith bod ei ymdrechion gwerthu a'r brand wedi arwain at gynnydd mewn ymholiadau ar gyfer ffilm a theledu yng Nghymru.

Felly, roedd Llywodraeth Cymru'n ystyried y byddai cadw brand Pinewood drwy gytundeb tair blynedd newydd, a fyddai'n cynhyrchu refeniw masnachol drwy'r stiwdio hefyd, yn cynnig gwell gwerth am arian na gadael y safle'n wag, gan y byddai costau hynny'n sylweddol i Lywodraeth Cymru.

Yn ogystal, gall y cytundeb newydd gael ei derfynu gan Lywodraeth Cymru gyda chwe mis o rybudd ar unrhyw adeg ar ôl pen-blwydd cyntaf y cytundeb, sef 1 Tachwedd 2018.

Yr Eiddo

Cafodd yr eiddo diwydiannol modern hwn sydd wedi'i leoli yng Ngwynllŵg ei adeiladu i safon uchel gan Awdurdod Datblygu Cymru gynt ym 1998. Gwerthwyd yr eiddo'n ddiweddarach i'r sector preifat ac mae wedi parhau i fod mewn meddiant buddiol ers hynny i raddau helaeth a than ei ail-brynu gan Lywodraeth Cymru yn 2014.

Wrth gaffael neu waredu eiddo, yr arfer cyffredin yw gwneud adroddiad prisio i gadarnhau bod y trafodiad yn cynrychioli gwerth y farchnad. Mae adroddiadau o'r fath yn rhoi sylwadau ar gyflwr yr adeilad ond nid ydynt yn cynnwys archwiliad llawn o'r to, yn wahanol i arolwg strwythurol llawn a fyddai wedi edrych ar bob agwedd ar yr adeilad. Yn yr achos hwn, roedd y

pris prynu a dalwyd gan Lywodraeth Cymru'n llai na'r prisiad a ddarparwyd gan gynghorwyr eiddo Llywodraeth Cymru ac yn sylweddol is na phris a ddyfynnwyd gan y gwerthwr ar y pryd.

Fel y nododd Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, gwelwyd bod yr adeiladau mewn cyflwr rhesymol ar y cyfan, yn gymesur â'u hoedran a'r defnydd ohonynt, ar yr adeg yr edrychwyd ac yr adroddwyd arnynt gan y prisiwr annibynnol. Ni nodwyd unrhyw ddiffygion neu eitemau atgyweirio brys neu arwyddocaol yn yr adroddiad prisio a fyddai'n debygol o arwain at wariant sylweddol yn y dyfodol agos neu sydd y tu hwnt i gwmpas rhaglen gynnal a chadw arferol.

Yn fuan cyn i Pinewood symud i'r adeilad, daeth sawl achos o ddŵr yn gollwng i'r amlwg, yn bennaf yng nghyffiniau'r gyliau dŵr glaw. Gellid bod wedi cyfyngu ar y gwaith atgyweirio angenrheidiol ar y to i'r ardaloedd hyn. Ystyriodd y swyddogion yr opsiynau oedd ar gael a phenderfynwyd gweithredu cynllun ailwampio mwy cynhwysfawr a gostiodd £979,000. Roedd hyn yn cynnwys rhoi haen ar y to cyfan gyda'r fantais o ymestyn oes y to i gyd-fynd yn agosach â thelerau'r brydles. Ystyriwyd hefyd y byddai'r opsiwn hwn yn lleihau risgiau gweithredol ac enw da, yn cynorthwyo gyda'r gwaith o reoli'r eiddo yn y dyfodol ac y byddai'n gwneud yr eiddo yn haws ei werthu pe bai Llywodraeth Cymru am waredu'r eiddo yn y dyfodol.

Mae bron yn amhosib pennu beth fydd cost gwaith atgyweirio ar y to yn gywir yn y dyfodol gan y byddai'n dibynnu pa mor gyflym y byddai'r to yn dirywio yn y dyfodol. Ar y pryd, sefydlodd swyddogion fod oddeutu 90% o'r dŵr a oedd yn dod i mewn i'r eiddo o ganlyniad i ddirywiad system leinin y cafnau dŵr. Gallen fod wedi gwneud gwaith atgyweirio yma ac acw i fynd i'r afael â'r gollyngiadau a nodwyd am gost o £15-20 mil. Fodd bynnag, ni fyddai'r opsiwn hwn wedi gwarantu bod yr adeilad yn ddwrglos yn y dyfodol. Roedd yr eiddo oddeutu 16 oed. Fel arfer, disgwylir i system to bara rhwng 20 a 25 mlynedd, yn dibynnu ar yr amgylchedd y mae'n agored iddo. O ganlyniad, byddai'n rhesymol disgwyl y byddai yna ddirywiad pellach yn ystod tymor y brydles arfaethedig i Pinewood. Pe byddai'r dirywiad hwn wedi'i gyfyngu i'r cafnau dŵr, gellid cyflawni gwaith mwy cynhwysfawr i roi leinin newydd yn y cafnau dŵr am gost amcangyfrifedig o £100,000.

Fodd bynnag, mae'n debygol, yn ogystal â'r problemau gyda'r cafnau dŵr, y gallai'r taflenni toi sydd ar y rhan fwyaf o'r to beri trafferthion yn y dyfodol. Gellid gwneud gwaith atgyweirio o'r fath yma a thraw yn ôl yr angen, ond ni fyddai hynny'n debygol o ddatrys y broblem yn llawn.

Gallai agwedd adweithiol o'r fath fod wedi bod yn rhatach dros amser, ond byddai wedi golygu gwneud gwaith cynnal a chadw amlach, a mwy o risgiau ariannol a risg i enw da. Er enghraifft, pe bai dŵr parhaus yn dod i mewn i'r adeilad wedi effeithio ar amserlennu fflmio neu wedi peri difrod i setiau gallai hynny fod wedi achosi oedi i gynyrchiadau, gyda goblygiadau cyllidebol sylweddol i'r cwmnïau cynhyrchu.

Caffaelwyd yr eiddo yn y farchnad agored gyda'r pris prynu'n ystyried y ffaith bod y to gryn ffordd drwy ei oes ddisgwylidig. Mae'r cynllun a gyflawnwyd yn ymestyn bywyd y to'n sylweddol ac yn cynnwys gwarant ugain mlynedd, a fyddai'n cael ei hystyried gan brynwr pe bai Llywodraeth Cymru am werthu'r eiddo yn y dyfodol.

O ran y ffermdy rhestredig, roedd y gwerthwr yn amharod i werthu'r eiddo heb i'r prynwr gaffael y tŷ adfeiliedig rhestredig Gradd II sydd ger y prif adeilad hefyd. Drwy brynu'r tŷ, roedd Llywodraeth Cymru o dan y rhwymedigaethau statudol arferol i adnewyddu'r adeilad yn unol â hynny. Nid oes terfyn amser penodol ar gyfer y gwaith adnewyddu hwn. Nid yw'r costau adnewyddu o £360,000 wedi cael eu hail-werthuso ers prynu'r adeilad yn 2014. Nid oes gan swyddogion amcangyfrif o werth gwerthu'r adeilad ar ôl gwneud y gwaith adnewyddu. Nid oes unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r adeilad ar unwaith. Fodd bynnag, o adnewyddu'r adeilad, gallai ddod yn ased gwerthfawr y gellid ei brydlesu neu ei werthu, naill ai gyda neu ar wahân i'r prif adeilad.

Ni roddwyd rhestr o waith i Lywodraeth Cymru gan Pinewood ar gyfer ei gyfraniad tenant arfaethedig o £800,000 gan nad oedd hyn yn amod o'r Cytundeb Cydweithio na'r Brydles. Ymrwymiad a wnaed gan Pinewood oedd hwn. Nid oedd y costau hyn wedi'u cynnwys yn y Cytundeb Prydlesu. Roedd y cyfraniad wedi'i eirio fel y byddai hyn yn cael ei ddarparu dros gyfnod y Brydles.

Mae uchder y to yn y stiwdio wedi golygu nad yw cynyrchiadau sydd angen lluniau o'r awyr wedi gallu defnyddio'r stiwdio. Fel y nodwyd eisoes, dim ond dau safle oedd yn addas ar gyfer stiwdio bosib yn seiliedig ar ofynion penodol Pinewood yn sgil y gwaith chwilio a wnaed gan swyddogion Pinewood a Llywodraeth Cymru. Wedi hynny, dewisodd Pinewood adeilad blaenorol y Ganolfan Ynni yng Ngwynllŵg fel y gorau o'r ddau opsiwn ar y rhestr fer. Roedd Pinewood yn cydnabod cyfyngiadau adeilad Gwynllŵg o'r cychwyn, gan gynnwys y ffaith na fyddai cynyrchiadau a oedd angen crogi goleuadau o'r nenfwd yn gallu defnyddio'r cyfleusterau oherwydd uchder a chyfyngiadau llwyth pwysau'r to. Serch hynny, adeilad Gwynllŵg oedd yr ateb gorau ar y pryd i'r cwmni weithredu yng Nghymru.

Mae yna atebion rigio y gellir eu defnyddio yn lle crogi goleuadau o'r nenfwd sy'n golygu y gall unrhyw gynhyrchiad a all weithio o fewn uchder y cyfleuster ei ddefnyddio. Mae'r stiwdio wedi cael ei defnyddio ar gyfer ffilm nodwedd Showdogs a Journeys End, a'r cyfresi teledu Sherlock, Doctor Who a Jerusalem ar Channel 4, sy'n dangos ei bod yn dal i fod yn ddefnyddiol iawn o hyd fel cyfleuster stiwdio i bob math o gynyrchiadau amrywiol.

Mae yna brinder aruthrol o ofod stiwdio o hyd ledled y DU ac yng Nghymru. Mae gan gyfleuster Pinewood Cymru ei farchnad ac felly mae'n ased pwysig i'r diwydiant yma.

Ar adeg ail-drafod y Cytundeb Cydweithio, ystyriwyd ei bod yn bwysig cadw brand Pinewood yng Nghymru a'r cyfleuster fel stiwdio. Mae yna ddeiliaid trwyddedau yn y stiwdio a wnaeth benderfyniad busnes i ddefnyddio gofod swyddfa ar y safle er mwyn bod yn agos at gynyrchiadau.

Mae nifer yr ymholiadau a dderbyniwyd ar gyfer gofod stiwdio a nifer yr ymweliadau stiwdio a wnaed gan Sgrîn Cymru'n tystio i'r galw am ofod stiwdio yng Nghymru. Ers mis Gorffennaf 2017, mae Sgrîn Cymru wedi derbyn dros 36 o ymholiadau am ofod stiwdio yng Nghymru, gyda Pinewood yn cael ei gynnwys yn o leiaf 30 o'r ceisiadau hyn.

Yn ogystal, mae yna fanteision economaidd sy'n deillio o gynyrchiadau sy'n defnyddio'r safle. Er enghraifft, adroddodd Ravers, a fu'n ffilmio ar y safle yn 2018, wariant o £1 miliwn yng Nghymru. Rydym yn amcangyfrif y gallai gwariant yng Nghymru yn sgil cynyrchiadau'n defnyddio'r stiwdio amrywio rhwng £5 miliwn a £10 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd.

Mae'r ffaith bod *The Crown*, un o sioeau allweddol Netflix, yn defnyddio Pinewood Studio Cymru fel ei ganolfan gynhyrchu ar gyfer gweithdai a swyddfeydd wrth ffilmio rhannau o Dymor 2 mewn lleoliadau ar hyd a lled y De-ddwyrain a'r Gogledd yn tystio ymhellach i addasrwydd y safle. Mae croeso mawr i'r math hwn o weithgarwch a'r manteision economaidd a diwylliannol a all ddod i'r ardal yn ei sgil; mae nifer o bobl leol wedi cael rolau fel actorion a chast ategol yn y ddrama. Rydym yn adeiladu perthynas gref â Netflix, ac mae hwn yn un o nifer o gynyrchiadau sydd wedi eu ffilmio yng Nghymru yn ystod y misoedd diwethaf.

Y Cytundeb Gwasanaethau Rheoli

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gytundeb gyda Pinewood o dan 'Gytundeb Gwasanaethau Rheoli' tair blynedd newydd, a oedd â dwy ran gyflenwol:

- gwerthiant a marchnata'r stiwdio

- gweithredu a rheoli'r stiwdio

O dan delerau'r cytundeb newydd, byddai Pinewood yn parhau i weithredu'r stiwdio ar ran Llywodraeth Cymru. Dylid nodi y gall y naill barti neu'r llall derfynu'r cytundeb hwn ar unrhyw adeg drwy roi rhybudd ysgrifenedig o chwe mis i'r parti arall i ddod i ben ddim cynharach na 12 mis ar ôl y dyddiad cychwyn.

Cost net flynyddol gweithredu'r cytundeb gwasanaethau rheoli i Lywodraeth Cymru:

Costau rhedeg blynyddol y stiwdio	890,000
Ad-dalu costau cynhyrchu Pinewood	216,000
Llai: refeniw stiwdio rhagamcanol	(714,000)
Cost gweithredu blynyddol net cyn ffi rheoli	392,000
Plws: Ffi rheoli taladwy i Pinewood	[golygwyd]
Cost gweithredu blynyddol net	[golygwyd]

Rhodddwyd y rhagolwg refeniw stiwdio blynyddol o £714,000 i Lywodraeth Cymru gan Pinewood. Mae'r cyfansymiau cost gweithredu net yn y tabl uchod yn tybio bod y ffigwr hwn yn realistig. Cafodd dibynadwyedd y rhagolygon eu profi a'u harchwilio gan swyddogion a chan gynghorwyr eiddo annibynnol hefyd.

Ar y pryd, cydnabuwyd pe na bai cytundeb newydd gyda Pinewood yn mynd rhagddo, yna byddai Llywodraeth Cymru yn gorfod ysgwyddo costau cadw eiddo blynyddol o tua £890,000 (gan gynnwys TAW), ac mai dim ond oddeutu £124,000 o incwm blynyddol y gallai ei ddisgwyl o osod gofod swyddfa. Pe bai'r amcangyfrifon hyn yn gywir, yna byddai'r gost flynyddol net debygol i Lywodraeth Cymru o dan y senario amgen honno wedi bod yn £766,000.

Yn ogystal, pe na bai'r safle wedi parhau fel cyfleuster stiwdio, ni fyddai'r economi yn elwa o refeniw ychwanegol cynyrchiadau sy'n defnyddio'r stiwdio. Amcangyfrifir bod hyn rhwng £5 miliwn a £10 miliwn y flwyddyn.

Pan aeth y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ym mis Gorffennaf eleni, dywedwyd bod Pinewood ar y trywydd iawn i gyflawni'r refeniw a ragwelwyd ar gyfer blwyddyn ariannol gyntaf y cytundeb newydd.

Ers hynny, mae refeniw rhagamcanol wedi gostwng ac mae'r cyfleuster wedi bod yn llai prysur nag yn gynharach yn y flwyddyn. Nid yw hyn yn anarferol ar gyfer cyfleusterau stiwdio, gan fod y galw'n dibynnu ar y prosiectau iawn ar yr adeg iawn. Mae llawer o'r prosiectau sydd wedi eu ffilmio yng Nghymru ers mis Gorffennaf wedi bod yn brosiectau ar leoliad yn hytrach na phrosiectau stiwdio. Mae gan Gymru restr iach iawn o brosiectau sy'n ystyried ffilmio yng Nghymru dros y 12 mis nesaf o hyd.

Ar hyn o bryd mae Stiwdio Pinewood Cymru'n cynhyrchu incwm blynyddol cynaliadwy o tua £100,000 o'r Trwyddedau Canolfan Gyfryngau ar y safle. Mae 17 o gwmnïau cadwyn gyflenwi allweddol wedi'u lleoli yn y cyfleuster, gan gynnwys Marigold Costumes Limited, Sgîl Cymru

Cyf, Alpha Grip (Caerdydd) Limited, Movietch Camera Rentals Limited ac Oh So Small Productions Limited.

Mae'r llwyfannau, swyddfeydd cynhyrchu a'r gweithdai wedi cynhyrchu oddeutu £350,000 o incwm hyd yn hyn ers dechrau'r cytundeb.

Yn fwy diweddar mae'r cyfleuster wedi bod yn gartref i'r cynhyrchiad adnabyddus 'The Crown' tra byddant yn ffilmio ar leoliad ledled Cymru ar gyfer y gyfres sydd i ddod. Fe'i defnyddiwyd yn ddiweddar gan gynhyrchiad Channel 4, sef Jerusalem, Doctor Who a ffilm nodwedd annibynnol sef Ravers, gan barhau i ddangos ei addasrwydd fel cyfleuster stiwdio.

Pe bai'r naill barti neu'r llall yn dewis terfynu'r cytundeb, mae swyddogion yn hyderus bod digon o alw am gyfleusterau stiwdio ledled y DU i ddod o hyd i weithredwr arall ar gyfer y cyfleuster. Mae'r safle'n lleoliad masnachol poblogaidd gyda chysylltiadau da â thraffordd yr M4 a'r fantais o gael swyddfeydd o ansawdd da wedi'u gorffen i safon uchel. Dylai'r diffyg cyfleoedd rhydd-ddaliad yn y farchnad wella apêl yr eiddo.

Bad Wolf

Dywedodd swyddogion gweithredol Pinewood wrth Swyddfa Archwilio Cymru fod agor stiwdio ffilm a theledu newydd gan Bad Wolf Studios (Wales) Ltd ym Mharc Trident, Caerdydd, ym mis Mai 2017 wedi cael effaith andwyol ar lefel defnydd Stiwdio Pinewood Cymru. Dadleuodd Pinewood fod nifer yr ymholiadau a dderbyniwyd ar gyfer y stiwdio wedi gostwng o ganlyniad i hynny, er bod y galw am stiwdios Pinewood yn y DU yn parhau'n gryf. Mae Stiwdio Blaidd Cymru, Parc Trident, yn llawn ar hyn o bryd ac nid yw'n cystadlu â Pinewood. Mae Sgrin Cymru yn hyrwyddo'r holl gyfleusterau yng Nghymru yn gyfartal ac mae yna ddigon o alw am ofod stiwdio yng Nghymru ar gyfer Stiwdio Pinewood Cymru a Wolf Studios Wales i weithredu ochr yn ochr â'i gilydd. Mae gan Bad Wolf ei gasgliad ei hun o gynyrchiadau sy'n werth oddeutu £300m a hyd yma mae Stiwdio Blaidd Cymru wedi bod yn gartref i Gynyrchiadau Bad Wolf yn unig. Mae cynyrchiadau diweddar yn cynnwys:

- Trioleg All Souls gan Deborah Harkness, a'r gyntaf ohonynt yw A Discovery of Witches. Ffilmiwyd y tymor cyntaf yn Stiwdio Blaidd Cymru ac ar leoliad yng Nghymru. Bwriad Bad Wolf yw addasu'r tri llyfr yn y gyfres ar gyfer teledu. Disgwylir i'r gyfres gyntaf gynhyrchu £10m mewn gwariant yng Nghymru. Mae'n cael ei darlledu ar Sky ar hyn o bryd.
- His Dark Materials gan Phillip Pullman, addasiad o'r clasur o drioleg gyfoes o nofelau ar gyfer y BBC. Mae disgwyl i'r cynhyrchiad sy'n ffilmio fesul cam yn Wolf Studios ac ar leoliad yng Nghymru ar hyn o bryd wario £15 miliwn yng Nghymru. Mae'n debygol y bydd y gyfres yn cael ei darlledu dros bum tymor, gydag wyth pennod ym mhob un, ac mae gwaith ffilmio i fod i gychwyn yn fuan.

Mae gan y De glwstwr o gyfleusterau stiwdio ac mae yna le i gystadleuaeth bob amser wrth i ddiwydiant ffilm a theledu llwyddiannus ddatblygu. Roedd Pinewood yn hapus i gydnabod hyn.

Cyn i Lywodraeth Cymru ddod i unrhyw gytundeb stiwdio gyda Bad Wolf, cadarnhaodd Prif Weithredwr Pinewood ar y pryd yn ysgrifenedig eu bod yn fodlon i ni symud ymlaen i gefnogi Bad Wolf gyda chyfleuster stiwdio.

Casgliad

Mae pwysigrwydd seilwaith stiwdio wedi bod yn rhan allweddol o'n strategaeth ar gyfer y Sector ac mae'n hanfodol bwysig i ddatblygiad y diwydiant ffilm a theledu yng Nghymru. Roedd y cytundeb gyda Pinewood yn allweddol wrth roi hwb i'r diwydiant yng Nghymru i'r lefel nesaf, gan godi ein proffil a gwneud Cymru'n lle i ddod â chynyrchiadau iddo, y tu allan i Lundain.

Mae'r trefniadau hyn wedi dod â gwerth sylweddol i'r diwydiant, ond dysgwyd nifer o wersi yn Nhîm y Sector hefyd ac ar draws Llywodraeth Cymru yn gyffredinol.

Atodiad 1

Llinell amser

02/10/2013	Prif Weithredwr Pinewood yn ysgrifennu at swyddogion ynglŷn â safle dewisol yng Ngwynllŵg
30/01/2014	Pinewood yn cyflwyno Cynllun Busnes Cytundeb Cydweithio
07/02/2014	Cwblhau'r gwaith cyfreithiol o brynu'r eiddo gan Weinidogion Cymru oddi wrth y gwerthwyr (Standard Life).
01/03/2014	Dechrau'r Cytundeb Cydweithio
04/2014	Sefydlu Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau
19/05/2014	Cymeradwyo'r prosiect 1 ^{af} o dan yr MIB, "Take Down" Mai 2014.
02/06/2014	Trefnu Cytundeb Cyllid Cynhyrchiad ar gyfer y ffilm <i>Take Down</i>
16/07/2014	Cytundeb i Brydlesu wedi'i lofnodi gan Lywodraeth Cymru a Pinewood Studio Wales Ltd
12/01/2015	Dyddiad Cychwyn y Brydles
01/2015	Y cynhyrchiad cyntaf yn dechrau yn Stiwdios Pinewood Cymru
16/03/2015	Prif Weinidog Cymru'n ymweld â Stiwdios Pinewood Cymru
20/01/2016	Swyddogion yn anfon nodyn at Ysgrifennydd y Cabinet ynglŷn â materion yn ymwneud â pherfformiad y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau.
28/04/2016	Y Tîm Arweinyddiaeth Eiddo yn argymhell Cais Toi Canolog
08/2016	Pryderon gan Banel Sector y Diwydiannau Creadigol a'r Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau am Berfformiad Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau
22/08/2016	Nodyn pellach at Ysgrifennydd y Cabinet - Problemau gyda Chyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau
23/10/2016	Llofnodi Cytundeb Prydlesu
02/11/2016	Swyddogion yn anfon llythyr at Brif Weithredwr Pinewood ynghylch problemau gyda Chyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau. Deialog yn parhau ar y problemau hyn tan 23 Ionawr 2017.
12/01/2017	Dyddiad Cychwyn Rhentu
23/01/2017	Swyddogion yn ysgrifennu at Brif Weithredwr Pinewood ynghylch y gofyniad i wneud newidiadau i'r MIB. Mae deialog pellach yn cychwyn ar newidiadau arfaethedig i'r MIB tan fis Ebrill, pan fo'r Prif Weithredwr yn gadael Pinewood.
30/03/2017	Cymeradwyo prosiect Stiwdio Blaidd Cymru
31/03/2017	Cytundeb gan Brif Weithredwr Pinewood i fwrw ymlaen

	â Stiwdio Blaidd Cymru
04/2017	Newid yn y tîm rheoli yn Pinewood wrth i'r Prif Weithredwr adael a Phrif Weithredwr dros dro yn cymryd yr awenau. Mae cyfnod newydd o drafodaethau'n cychwyn gyda'r Prif Weithredwr dros dro.
16/08/2017	Pinewood yn penderfynu tynnu'n ôl o reolaeth trydydd parti ar y gronfa
11/09/2017	Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith yn cyfarfod â Phrif Swyddog Gweithredol Interim Pinewood i drafod y berthynas yn y dyfodol
29/09/2017	Property Leadership Team noted the Pinewood Operator Agreement Y Tîm Arweinyddiaeth Eiddo yn nodi Cytundeb Gweithredwr Pinewood
31/10/2017	Terfynu'r Cytundeb Cydweithio Gwreiddiol a'r Brydles
01/11/2017	Cychwyn Cytundeb Gwasanaethau Rheoli Newydd
12/06/2018	Swyddfa Archwilio Cymru – adroddiad ffeithiau'n unig ar berthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood